**Eitem Agenda:**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6ed Medi 2012** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | **Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Rheolwr Cyllid Addysg** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Fformiwla Cyllido Ysgolion Sir Ddinbych** |

---

## 1. Ynglŷn â beth mae'r adroddiad?

1.1 Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cynigion ar gyfer Fformiwla Cyllido Ysgolion newydd Sir Ddinbych mewn ysgolion prif ffrwd ac arbennig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Rhoi gwybod i'r pwyllgor am y cynigion ar gyfer y fframwaith cyllido newydd ac amlinellu sut y bydd yn newid y ffordd y mae cyllid ysgolion yn cael ei ddosbarthu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Aelodau i adolygu'r fframwaith cyllido ac ystyried a fydd y cynigion yn darparu model cyllido effeithiol a chadarn i ysgolion Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ym mis Mehefin 2012 dosbarthwyd y ddogfen gyfathrebu amgaeëdig (atodiad 1) i Ysgolion yn amlinellu'r cynigion cychwynnol ar gyfer fframwaith cyllido newydd i Sir Ddinbych.

4.2 Ym mis Medi 2012 bydd dogfen ymgynghori lawn yn cael ei dosbarthu yn amlinellu manylion penodol y fformiwla newydd ac yn darparu dyraniadau cyllido manwl ar gyfer pob ysgol. Bydd y dyraniadau hyn wedi'u cyfrifol gan ddefnyddio'r fframwaith cyllido arfaethedig. Mae'r amserlen ar gyfer ymgynghori wedi'i chynnwys yn atodiad 1

## 5. Sut y mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd y canlyniad o'r adolygiad yn newid y ffordd y mae cyllid ysgolion yn cael ei ddosbarthu ac yn caniatáu i ysgolion feddwl yn wahanol ynghylch sut y maen nhw'n rheoli eu cyllid dirprwyedig. Bydd hyn yn cefnogi'r flaenoriaeth o Foderneiddio Addysg.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Nid oes dim cost ychwanegol i'r adolygiad hwn gan fod y Fformiwla Cyllido yn fodd o ddosbarthu cyfanswm y cwantwm ysgolion i bob ysgol unigol. Bydd cyfanswm y cwantwm yn aros yr un fath ni waeth be fo canlyniad yr adolygiad ond fe all arwain at ailalinio cyllid yn wahanol ar draws ysgolion.

**7. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal?**

7.1 Mae ymgynghori cychwynnol wedi'i gynnal gyda Phrifathrawon, Llywodraethwyr, Undebau Llafur a Swyddogion Addysg.

**8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

8.1 Mae risg y gall y fformiwla newydd, unwaith y bydd wedi'i gwblhau, arwain at resi o enillwyr a chollwyr ar draws pob ysgol gan fod cymaint wedi newid o ran cyllido ysgolion ers dechreuad RhYLl yn 1990. Mae'n bwysig fodd bynnag fod cyllid yn cael ei ddosbarthu'n deg a chyfiawn i bob ysgol, felly os yw'r fframwaith yn iawn yna gallwn fod yn hyderus y bydd y cyllid sy'n cael ei ddyfarnu yn iawn. Bydd cyllid pontio'n cael ei ddyfarnu, ble mae angen, i liniaru effaith colli cyllid

**9. Grym i wneud y Penderfyniad**

9.1 Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol ddyrannu cyllid i ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod ar ffurf cyfrannau cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla cyllido a benderfynwyd yn lleol.

**Swyddog Cyswllt:**

Carly Wilson
Rheolwr Cyllid Addysg
01824 712633